# tafod elái

Mai 2021

Rhif 357

Pris £1


## Cyngor wedi torri safonau'r Gymraeg

Yn ei adroddiad mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dod i'r casgliad bod Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg wrth gynnig cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton ym Mhontypridd.

Cafodd yr ymchwiliad ei lansio yn dilyn cwyn gan aelod o'r grŵp *Pontio'r Gymraeg yn Lleol* oedd yn honni nad oedd y cyngor wedi ymgynghori yn briodol cyn cynnig cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Sion Norton fel rhan o gynlluniau dadleuol Ysgolion 21 Ganrif i ad-drefnu ysgolion yn nhref Pontypridd, nac wedi ystyried effaith newid eu polisi ar y Gymraeg.

Bydd y cynlluniau, sydd erbyn hyn wedi eu gohirio tan 2024, yn cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac agor ysgol gynradd newydd â mwy o faint ar safle hen Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn Rhydyfelin. Fis Gorffennaf 2020 fel rhan o adolygiad barnwrol dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu ag ystyried effaith y newidiadau ar yr iaith Gymraeg, ond fe apeliwyd yn llwyddiannus yn erbyn y dyfarniad gan y Cyngor.

Daeth Aled Roberts, Comisynydd y Gymraeg i'r casgliad fod y Cyngor wedi torri safonau 91, 92 a 93 ac "nad oedd y ddogfen ymgynghori yn trafod yn ddigonol, cynnig opsiynau, yn ystyried nac yn darparu gwybodaeth ynghylch effaith posib yr holl gynigion ar y Gymraeg i alluogi'r cyhoedd i ymateb yn wybodus i'r ymgynghoriad"

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad oedd y cyngor wedi ystyried os byddai'r Gymraeg "yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o newid y polisi ac na chafodd hynny chwaith ei ystyried na'i gynnwys yn ddigonol yn y dogfennau ymgynghori".

Yn sgil y cyhoeddiad y bydd y Cyngor yn gohirio'r cynlluniau i adrefnu ysgolion tan 2024, bydd ymgyrchwyr *Pontio'r Gymraeg yn Lleol* yn parhau i alw am gydweithrediad y Cyngor i sicrhau y bydd y Gymraeg yn parhau i ffynnu yng nghymunedau Ynysybwl, Glyncoch, Coed y Cwm, Trallwn a Chilfynydd o'r blynyddoedd cynradd i oedran cynradd ac uwchradd.

## Gweithgarwch Clwb Rygbi Pentyrch



Mae'r cyfnod clo wedi bod yn gyfnod anodd i glybiau chwaraeon ond mae Clwb Rygbi Pentyrch wedi gweithio i wella darpariaeth y clwb. Gyda chymorth grantiau oddi wrth Chwaraeon Cymru a'r Loteri Cenedlaethol mae'r clwb wedi gosod paneli solar ar y to.




"Rydyn ni'n defnyddio llawer o drydan ac mae ein biliau ni tua £6,000 y flwyddyn," meddai Gareth Williams, ysgrifennydd cynorthwyol y clwb sy'n chwarae yn Adran Tri Canolbarth Dwyreiniol Cynghrair Genedlaethol Undeb Rygbi Cymru.

"Y gobaith yw y gallwn ni leihau hynny o leiaf 50 y cant, os nad mwy. Daeth y syniad gan drysorydd y clwb, sy'n ddarbodus iawn ac sydd wedi gwneud arbedion mawr ar y paneli sydd wedi'u gosod yn ei gartref."

Oherwydd llwyddiant y cynllun mae tîm achosion da y loteri wedi cynhyrchu fideo i ddathlu'r gwaith mae'r clwb yn ei wneud i hyrwyddo cynaladwyedd. A bu Alun Davidson, Ysgrifennydd y Clwb, yn trafod y gwaith ar raglen Dros Frecwast Radio Cymru.

## Ffit Cymru



Llongyfarchiadau i Leah Owen Griffiths, Ffynnon Taf, ar ei hymdrechion yn un o arweinwyr ar y rhaglen deledu Ffit Cymru. Mae hi'n gwynebu targedau colli pwysau bob wythnos ac yn gwneud nifer o weithgareddau ymarfer corff gwahanol yn cynnwys un diwrnod dewr iawn yn nofio yn Llyn Padarn.

Bydd y gyfres deledu yn parhau drwy fis Mai ar nos Fawrth ac ar S4Clic.

## Tafwyl 2021

Ymhlith yr artistiaid cerddorol fydd yn ymddangos yn Tafwyl 2021 ym mis Mai mae Geraint Jarman, Mared, Cowbois Rhos Botwnnog, Ani Glass, Gwilym, a Breichiau Hir. Bydd 15 band yn perfformio ar draws 2 lwyfan, wedi eu curadu gan Clwb Ifor Bach. Bydd perfformiad hefyd gan fand o Lydaw, EMEZI, trwy bartneriaeth rhwng Tafwyl a'r ŵyl Lydaweg Gouel Broadel ar Brezhoneg (GBB).

Bydd y digwyddiad yn ffrydio'n fyw ar AM o gartref yr ŵyl, Castell Caerdydd, dan ofal y cyflwynwyr Huw Stephens, Seren Jones a Tara Bethan.

Yn ogystal â'r gerddoriaeth fyw bydd cyfuniad cyffrous o drafodaethau, sgyrsiau a gweithgareddau i blant mewn rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau amrywiol. Parhad ar dudalen 15



# tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mehefin
i gyrraedd erbyn
28 Mai 2021

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

**Tafod Elái ar y wê**
**http://www.tafodelai.cymru**

**Argraffwyr:**
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Dyrchafiad**
Llongyfarchiadau i Rhuanedd Richards, Heol Merthyr sy wedi dechre swydd newydd gyda'r BBC fel Cyfarwyddwr Cynnwys a Gwasanaethau BBC Cymru. Cyn hynny hi oedd Pennaeth Radio Cymru. Pob lwc.

**Merched y Wawr**
Lyn West, Efail Isaf yw'r siaradwr gwadd nos Iau, Mai 13eg am 7.00 ar Zoom. Ym mis Mehefin y bwriad yw cwrdd ym Mharc Ynysangharad am wâc a chlonc.
Ymunodd sawl un o'r gangen yn noson ddiweddara Rhanbarth y De Ddwyrain ar Zoom. Buodd Mike a Siân Ebbsworth yn cyfrannu at y noson wrth roi blas ar Pilates. Yn rhannu'r noson oedd Nia Jones o gwmni Traed I Fyny gyda sesiwn Adweitheg ar y dwylo.

**Newyddion Da**
Ar ôl bod ar gau ers llifogydd mis Chwefror 2020 o'r diwedd mae Lido Pontypridd yn agor ddechre Mai. Maent yn cychwyn gyda sesiynau nofio cynnar o 7.30 tan 9. Rhaid archebu ar-lein. Y bwriad yw ymestyn yr oriau yn ystod y misoedd nesa. Cysylltwch â'r Lido am fwy o wybodaeth.
www.lidoponty.co.uk

**Clwb llyfrau**
Bydd yr aelodau yn cwrdd pnawn Llun Mai 10fed am 3.15 p.m. ar Zoom Croeso ddarllenwyr brwd i ymuno a ni i drafod cyfrolau Cymraeg a Saesneg.
Cysylltwch â Jayne am y linc.

**Colledion**
Bu farw Mrs. Eirwen Williams, Porthaethwy yn 95 oed. Roedd yn ymwelydd cyson â Phontypridd lle buodd ei merch Meinir Llywelyn yn byw. Roedd yn Nain gofalus a charedig i Elin ac Osian. Cydymdeimladau atoch chi'ch dau a'ch teuluoedd.
Ar ôl salwch byr bu farw Lyndon Day, Swindon. Roedd yn dad i Geraint Day, Hillside View. Estynnwn ein cydymdeimlad at Geraint, Heledd a Twm.

**Haul ar y fodrwy**
Bu Siân a Mike Ebbsworth yn dathlu priodas eu merch Catrin a Gwilym Edwards, Ffynnon Taf ar Ebrill 17eg. Fe ddaeth sawl un (gan ddilyn y rheolau ,wrth gwrs) i Eglwys Sant Tysul, Llandysul ar lan yr afon Teifi. Priodas

## PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Cydymdeimlad**
Wedi bod yn wael ei hiechyd am beth amser bu farw Valerie Evans, Lôn y Fro ar Fawrth 30ain. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Bethany, Pwllgwaun a'r claddu ym Maes Claddedigaeth Naturiol y Fro. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i George Evans, ei gŵr a'r teulu oll. Mae Russell, un o'r meibion, a Gwawr a'u plant Emrys, Gwilym a Mabli yn byw yn Church View.



gynta'r eglwys ers blwyddyn oedd hi. Ymlaen wedyn i dynnu lluniau yng Nghenarth ar ôl ymweld â Nain a Taid yng Nghartre Gofal Glyn Nest, Castell Newydd Emlyn. Mae Catrin yn is-reolwraig yn siop Lush, Caerdydd a Gwilym yn weithiwr cymdeithasol. Cawson nhw wythnos o fis mel yng Nghernyw. Maent wedi ymgartrefu yn Ffynnon Taf.

**Gwiiiiich!**
Llongyfarchiadau i Alun Thomas, Graigwen am fentro ar y Wifren Wib newydd yn Hirwaun wrth iddo wneud eitem ar agoriad yr atynfa ar newyddion Radio Cymru ar Ebrill 26ain.
Mae rhai aelodau Merched y Wawr Pontypridd yn edrych ymlaen at ddilyn ei esiampl. Her wedi'r clo!!

## IESTYN MEWN DU A GWYN



Helo, fi yw Iestyn Gwyn Jones! Efallai fy mod i'n enw cyfarwydd i rai ohonoch. Dwi'n actor, yn gerddor, yn gynhyrchydd ac yn scriptiwr, er fy mod i dal yn astudio yn y chweched dosbarth. Dwi wedi dysgu i ddefnyddio fy amser mor effeithiol á phosib yn ddiweddar - ond i fod yn onest dyw pethau ddim yn dod yn rhwydd. Dwi'n trio cyflawni'r mwyaf dwi'n gallu a'n ceisio arbrofi â thorri ffiniau wrth wneud. Dwi'n manteisio ar bob cyfle i fod yn greadigol a'n treulio pob eiliad rhydd o fy niwrnod i ddatblygu hynny. Dyna ydy fy niddordebau a hynny ar unrhyw gyfrwng posib.

**Drama**

Dwi'n aml iawn yn ymddangos mewn sioeau a pherfformiadau gan ganu, actio, clocsio neu hyd yn oed gyfeilio ar rai adegau - er yn amlwg mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi rhoi stop ar berfformiadau byw. Mae hi wedi bod yn flwyddyn addysgiadol iawn i mi o ran cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chyfryngau gwahanol; o sgriptio i gynhyrchu a ffilmio.

Dwi hefyd wedi dechrau rhannu fideos o berfformiadau ar fy nghyfrif YouTube ac wrthi yn datblygu nifer fawr o brosiectau rhithiol cyffrous.




**Cerddoriaeth**

Gobeithio cewch chi glywed ambell i gân gen i dros y misoedd nesaf - mae nifer fawr o brosiectau cyffrous gen i ar y ffordd! Yn y cyfamser chwiliwch am 'Iestyn Gwyn Jones' ar YouTube neu SoundCloud. Y gân ddiweddaraf yw 'Lle ydw i nawr'.

**Iechyd Meddwl**

"Fi dal yma, dal i gredu, dal i fynd i Ninlle. Ond mae hwnna ynddo'i hun yn rhywbeth i deimlo'n dda amdano." - Iestyn Gwyn Jones

Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld fy adroddiad ar newyddion S4C dros y Pasg. Roedd y pecyn yn pwysleisio iechyd meddwl mewn pobl ifanc dros y cyfnod clo. Fel unigolyn sydd wedi profi iechyd meddwl roedd gallu rhannu fy mhrofiadau a bod yn onest amdano'n rhyddhad mawr. Rwy wedi ysgrifennu cerdd o'r enw "Heno" a chân o'r enw "Give me a reason". Dwi hefyd wedi bod wrthi yn ysgrifennu drama o'r enw YMA sydd yn brysur yn cael ei ddatblygu ar y foment.


Dwi'n annog eraill i rannu eu profiadau a'u teimladau gan fod cadw'r rhain i'n hun yn gallu bod yn niweidiol. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd i ni gyd. Does dim byd yn bod gyda chysylltu am sgwrs neu i drafod ein teimladau - dyna sy'n ein gwneud ni'n ddynol. Felly ewch amdani, cymerwch bob cyfle a chofiwch estyn llaw at eraill. Dyw e ddim bob amser yn amlwg bod rhywun angen cymorth.

## Enwau lleoedd Taf Elái



Daeth dros 70 o bobl i gyflwyniad zoom gan yr Athro Dylan Foster Evans ar hanes enwau yr ardal. Cafwyd eglurhad o darddiad rhai o'n hafonydd a sut oedd enwau wedi newid dros y canrifoedd. Cyfeiriodd at ddogfen treth yr ardal o'r flwyddyn 1600 a map cynnar o 1800 oedd yn dangos nifer o enwau diddorol.

Diolch i Jayne Rogers a Chanolfan Garth Olwg am drefnu noson ardderchog.




## Ffynnon Taf, Panama a Rhyfel Clust Jenkins

Clywed sylw academydd oedd y man cychwyn. Yn ei sgwrs ar Zoom yn ddiweddar am enwau llefydd Taf-Elái, dywedodd y Dr Dylan Foster Evans fod Portobello'n dafarn enwog yn Ffynnon Taf.

Yn ystod rhannau o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hwn oedd enw'r pentre hefyd.

Mae cliw yn y gyfrol *The Glamorgan Village Book*. Yn 1767 penderfynodd meistri haearn Merthyr godi tollffordd rhwng y dre honno a Thongwynlais fyddai'n ymuno â hen dollffordd o'r 'Hen Ffwrnais,' hynny yw Pont yr Ynys, i Gaerdydd.

Ar y dollffordd newydd roedd tollbyrth ger Tafarn y Cross Keys yn Nantgarw, Tafarn y Portobello, yr enw drodd yn enw'r pentre, ac yn Nhongwynlais. Ar fap Yates o Sir Forgannwg yn 1799 enw'r pentre oedd Portobello.

Un ddamcaniaeth oedd bod y dafarn wedi ei henwi ar ôl brwydr lwyddannus yn 1739 ym Mhanama adeg Rhyfel Clust Jenkins rhwng Prydain a Sbaen. Er mwyn coffáu'r fuddugoliaeth fe gafodd ffyrdd neu ardaloedd eu henwi yn Nulyn, Caeredin a Llundain. Pam bod y glust yn bwysig? Roedd capten o Sais, Robert Jenkins, wedi honni bod gwylwyr y glannau o Sbaen wedi byrddio ei long, ei hysbeilio a thorri ei glust i ffwrdd. Hwn oedd man cychwyn y rhyfel, yn ôl rhai haneswyr.

Ar fap 1841 enw'r pentre yw Ffynnon Taf a rhestrir enwau diddorol, gan gynnwys Cae Canol, Cae Cerrig, Cae Ffynnon, Cae Pebyll, Cae Graig, Cae Banal, Waun Bwll, Cwm Bedw, Cae Bryne a Chae Bach.

Erbyn 1880 does dim sôn am Dafarn y Portobello yng *Nghyfarwyddlyfr Masnachol Slaters*, dim ond yr Angor, y Castell, Arfau Dinefwr (Fagins erbyn hyn), y Junction a'r Railway. Ond mae Archifdy Morgannwg yn rhestru cynllun adeiladu ale sgitls Tafarn y Portobello a'r dyddiad yw 1898!

Gyda llaw, Portobello oedd enw loc ar y gamlas (rhif 39, bron tu ôl i Stryd Tabor), croesfan reilffordd a thŷ gerllaw. Roedd yn enw ar chwarel hefyd.

Wrth wrando ar sgwrs Dr Evans wnes i feddwl taw'r enwau hyn yw ein hangorau. Hebddyn nhw, ry'n ni ar goll.

Martin Huws

# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Cymdeithas Gymraeg Prifysgol Birmingham**

Mae dau o gyn ddisgyblion Ysgol Plasmawr yng Nghaerdydd wedi cael eu penodi ar bwyllgor Cymdeithas Gymraeg Prifysgol Birmingham.

Mae Daniel Calan Jones wedi cael ei apwyntio fel Llywydd newydd y Gymdeithas. Mae yn yr ail flwyddyn ac yn astudio cwrs ffisiotherapi.

Elin Morgan fydd y dirprwy lywydd. Mae hi yn astudio'r gyfraith a hefyd yn ei hail flwyddyn.

Roedd Daniel yn gyn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Creigiau ac Elin yn Ysgol Gwaelod y Garth.

Mae rhyw 60 o aelodau ganddynt ar hyn o bryd ond eu bwriad yw cynyddu'r nifer o aelodau. Y gobaith yw i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn y Brifysgol ac annog Cymry Cymraeg a di -Gymraeg i deimlo balchder ac i fod yn lysgenhadon Cymru. Byddant yn cynnig ystod ehangach o weithgareddau megis diwrnodau chwaraeon a nosweithiau bandiau Cymraeg. Llongyfarchiadau mawr eich dau a phob lwc gyda'r gwaith! Prysured normalrwydd i fywyd pawb!

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Huw ac Owen a'u teuluoedd ar golli Mam, a Mam-gu arbennig iawn yn ddiweddar. Bu farw Hilary Lewis yn dawel a hithau yn 91 oed. Brodor o Bontypridd oedd Hilary, ond yma yn y Creigiau y gwnaeth y teulu eu cartref am ddegawdau. Addysgwraig, gwraig i'r diweddar Barchedig Hywel Lewis. Cymeriad lliwgar, eang ei diddordebau, difyr ei pharabl. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Groes-faen. Crisialodd y Parch Allan Pickard ei chymeriad i'r dim yn ei deyrnged hyfryd iddi. Diolch Allan am rannu gyda ni.

*Rydym yng nghanol harddwch blodau'r Pasg sydd ar y beddau o'n cwmpas, ac yn cofio am harddwch personoliaeth Hilary, a'r harddwch oedd yn ei chymeriad a'i byw. Roedd 'na gryfder a chadernid hefyd, a dycnwch, wrth iddi wynebu bywyd heb Hywel, a'r heriau ddaeth wrth i'r blynyddoedd bwyso'n drwm arni.*

*Aeth bywyd yn fwyfwy heriol i Hilary wrth iddi wynebu bywyd heb Hywel, ond roedd yn benderfynol o wneud i gorau o bethe. Cawsom rannu sawl dathliad pen-blwydd, a gweld y pleser a gafodd o fod yng nghwmni teulu a ffrindiau. Roedd cymdogion a gofalwyr yn gwneud bywyd ychydig yn fwy dymunol. Roedd rhaid ymddangos yn drwsiadus, hyd yn oed yn*



*y tŷ, a roedd y ddynes trin gwallt a'r wraig oedd yn galw'n rheolaidd i wneud ei ewinedd yn chwarae rhan bwysig. Roedd digon o chwerthin bob amser. Roedd mynd am bryd o fwyd i Caesar's yn rhoi llawer o bleser, a'r clwb cinio a'r gwmnïaeth yn y dafarn ar y sgwâr - y Creigiau Inn.*

*Roedd Sardis yn golygu llawer i Hilary. Dyna lle cafodd ei magu, a roedd ei chyfraniad i fywyd Sardis ym amhrisiadwy. Gyda Hywel bu'n weithgar tu hwnt, ac roedd hi wrth ei bodd yn derbyn gwahanol gyfrifoldebau. Roedd y ddau yn llawn afiaith ac roedd Hilary wastad yn siriol a thwymgalon, yn mwynhau cwmni ar bob adeg. 'Wrth i'n rhifau leihau fe'n tynnwyd i gorlan y set fawr ac fe ddaethom yn deulu agos, yn rhannu ein hapusrwydd a'n tristwch. Roedd Hilary wrth ei bodd yn cael sgwrs â ni ar ddydd Sul ac ar adegau pan y byddem yn ymweld â hi. Roedd hi'n adeg trist iawn i ni i gyd pan aeth grisiau Sardis yn drech na hi a mawr yw ein colled.'*

*Bu'n Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau yn Sardis am flynyddoedd.*

*O goffâd Eirian i Hywel Lewis:*

*Mewn Noson Lawen ym Mhontypridd roedd Hywel yn perfformio ar y piano (roedd yn bianydd medrus dros ben) a rhyw ferch ifanc (Hilary) â dwy o'i ffrindiau yn perfformio'r Charleston. Dyma'r noson roddodd gychwyn i oes o garu, priodi, gwneud cartref a magu teulu, a hynny'n gwbl hapus am dros 58 o flynyddoedd. (Bu Hywel farw yn 2013)*

**Diolch Plasmawr**

Hoffwn ddiolch i Ysgol Plasmawr am addasu mor wych dros y flwyddyn diwetha. Mae y cyfathrebu wythnosol a'r teimlad o ddrws agored wedi bod yn gymorth i bawb wrth fyw o fis i fis o dan amgylchiadau anodd a newydd. Mae nifer o staff yr ysgol yn byw yn y pentre ac rydym yn lwcus iawn fod ein plant wedi cael eu harwain mewn modd sydd wedi eu cadw yn brysur a'u cadw at amserlen ddyddiol.

Mae'r ysgol wedi datblygu, addasu ac esblygu yn ôl gofynion a ffiniau bregus - ond wedi llwyddo i gynnig profiadau ac addysg penigamp.

Diolch a gobeithio gweld pawb yn y cnawd mewn noson gymdeithasol cyn hir.

Teleri Jones

**Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r Cylch**

Cafwyd cwmni Cadi Matthews fis Ebrill dros *zoom* ac ymunodd rhai o aelodau Mercher y Wawr y Garth gyda ni hefyd.

Mae Cadi yn brynwr dillad i gwmni F&F Tesco erbyn hyn a hi oedd y steilydd ar y rhaglen 'Dim byd i'w wisgo' ar S4C dros y cyfnod clo.

Cawsom *dips* ar ba ddillad craidd ddylai fod yn ein *wardrobes,* a syniadau am sut i ddefnyddio y dillad sydd gennym mewn ffordd ddyfeisgar a newydd. Roedd ei brwdfrydedd yn heintus ac wedi annog nifer ohonom i fod yn fwy dewr a mentrus ac i addasu ein hedrychiad er mwyn teimlo'n gyfforddus ac yn steilish.

Rydym yn edrych ymlaen yn barod fel Crotesi i gwrdd am frecwast yn y cnawd mis nesa cyn mynd am dro yn lleol - cyfle i ddangos ein steiliau newydd a teimlo'n hyderus wrth wisgo i fynd allan am fwyd unwaith eto



## Creigiau
**(Parhad)**

**Babi newydd!**
Ar y 27ain o Fawrth ganwyd mab annwyl, Max Llewelyn i Gethin a Jordan Davies, Efail Isaf. Mae Gareth a Sylvia Davies a Paul ac Anne Beddoe, Creigiau wedi dotio ar eu ŵyr newydd, felly hefyd ymateb y teulu ehangach yn enwedig Lowri, chwaer Gethin a Mila a Marley, dwy gyfneither Max.



**Pen-blwydd priodas arian!**
Llongyfarchiadau enfawr i Anwen a Dave Robbins, Parc Castell y Mynach oedd yn dathlu pen-blwydd priodas arian yn ddiweddar. Dyma lun ohonynt ym Mharc Penlan, Llandeilo yn yfed champagne i ddathlu!





**Mudiad Meithrin yn hanner cant!**
Eleni bydd MYM yn dathlu hanner can mlynedd o wasanaeth clodwiw i blantos a rhieni Cymru! I'r iaith ac i fyd addysg yn gyffredinol mae ein dyled i'r Mudiad yn enfawr. Tybed oes gennych chi ddarllenwyr atgofion/luniau/bosteri/nwyddau y basech yn fodlon eu rhannu/benthyg? Basai Ann Angell wrth ei bodd yn clywed gennych. AnnAngell14@yahoo.com

**Croeso i'r Creigiau!**
Dyma air gan y pentrefwyr newydd eu hunain!
*Rydyn ni'n deulu o 3 fydd yn troi'n 4 erbyn mis Medi. Mae Idris Owen yn dair oed a newydd ddechrau yn y Feithrin yn Ysgol Creigiau. Mae'n hoff iawn o fynd am dro yn y goedwig ac i'r parc! Emyr ydw i, a 'dw i'n enedigol o Gaerdydd ac yn gweithio fel athro yn Ysgol Coed y Gof, Caerdydd.*

*Mae fy ngwraig Hannah yn gweithio fel Cydlynydd Cwmni gyda National Theatre Wales. Er iddi gael ei geni yn y De treuliodd hi ei phlentyndod ym Moelfre, Licswm a Bae Colwyn cyn symud i Gaerdydd i fyw yn 2007. Wnaethon ni gwrdd yn Côr CF1 ac mae'r ddau ohonom ni yn parhau i ganu gyda'r Côr. Symudon ni i'r pentref ddiwedd mis Mehefin y llynedd. Mae'r croeso wedi bod yn un cynnes iawn ac rydyn ni'n teimlo'n gartrefol yn syth.'*

Diolch Emyr a chroeso cynnes iawn i ti, Hannah ac Idris! Pob lwc gyda rhif pedwar!

**Heulwen yn Fam!**




Yn Awstralia bell daeth Delyth i'r byd ar y 30ain o Ragfyr, 2020! Babi bach cyntaf i Heulwen Rees a'i phartner. Mae Heulwen yn Feddyg Teulu mewn lle o'r enw Leeton - 580km o Sydney, NSW, Awstralia. Yn ffodus iawn roedd Aled a Marian Rees, Creigiau - Tad-cu a Mam-gu balch iawn - wedi medru bod allan yno ar y pryd gyda'r teulu bach ac yn amlwg maent yn edrych ymlaen at y cyfle i fynd nôl eto yn rheolaidd dros y blynyddoedd i ddod. Llongyfarchiadau i chi i gyd a chariad at Delyth fach!

## Rhyddfraint Pentyrch

Mae gan Cyngor Cymuned Pentyrch yr hawl i roi'r anrhydedd o Rhyddfreiniwr Anrhydeddus i ddangos gwerthfawrogiad o wasanaeth unigolion i'r gymuned.

Ymhlith y rhai gafodd yr anrhydedd yn ddiweddar mae'r diweddar Don Llewellyn, Pentyrch, am ei oes o wasanaeth i'r pentref, Cymdeithas Hanes Pentyrch ac fel ffrind i'r Cyngor a'i amgueddfa.

Rhoddwyd yr anrhydedd i Brynmor Jones, Creigiau, am ei wasanaeth i'r Cyngor ac fel un o sylfaenwyr Gwarchod Cymdogaeth Creigiau a chasgliad pabi'r Lleng Prydeinig.

Hefyd rhoddwyd yr anrhydedd i Penri Williams, Pentyrch, am ei wasanaeth i'r Cyngor a'r Cyngor Sir ac am hyrwyddo'r Gymraeg a llawer o grŵpiau cymunedol lleol.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i deulu y ddiweddar Gwyneth Jones, Parc Castell y Mynach, Creigiau. Bu farw Gwyneth ar yr ail o Ebrill yn frawychus o sydyn. Symudodd Gwyneth a'i diweddar ŵr, William o Sir Gâr ychydig flynyddoedd yn ôl i ymddeol yn nes at eu merched. Dim ond cwta fisoedd o ymddeoliad gafodd William ac fe gipiwyd Gwyneth yn rhy ifanc o lawer. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Bethel, Pontyclun pnawn Mercher yr 21ain o Ebrill. Yn meddwl amdanoch Andrea, Brenda a Carol yn eich galar.

**Cardiau Jan!**
Ydy, mae Jan yn dal yn gynhyrchiol! Falle i chi gofio'r set gynta o gardie greodd Jan - maent i'w gweld yn rhifyn blaenorol y Tafod. Roedd yr ymateb yn wych - felly dyma annog Jan i fynd ati i greu ail set. Maent ar gael - £2 yr un neu £5 am becyn o dri - cysyllter â Jan ar Jerskine1@sky.com



# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebwyr y Mis:**
**Gwilym ac Eleri Huws**

**Clwb yn Colli Maeswr Dibynadwy**




Un o brif nodweddion cae criced Parc Glyn, cartref Clwb Criced Manordy Meisgyn ers ei sefydlu yn 1882, oedd y dderwen a safai y tu mewn i ffiniau'r maes chwarae. Ni ellir hawlio bod y nodwedd hon yn un gwbl unigryw gan fod ambell enghraifft arall – gan gynnwys meysydd dosbarth cyntaf y gêm yn Lloegr, De Affrica a'r Iseldiroedd. Yn eu plith roedd maes criced Sant Lawrence yng Nghaer-gaint, cartref tîm swydd Caint, oherwydd am ddegawdau lawer safai coeden palalwyf ar y maes enwog hwnnw cyn iddi ddymchwel mewn storm yn 2005. Yn anffodus, ym mis Ionawr eleni, profodd derwen Parc Glyn yr un dynged drist pan gwympodd i'r llawr yn gwbl annisgwyl ar ôl sefyll yn yr un man am o leiaf 300 mlynedd. Nid ar chwarae bach yr aethpwyd ati i symud y goeden o'r cae. Yn gyntaf bu'n rhaid galw arbenigwr i achub haid o gacwn a nythai mewn cangen oedd wedi eu caethiwo o dan wyneb y tir pan ddisgynnodd y goeden i'r llawr. Dros y misoedd diwethaf bu cwmni o gontractwyr, ac yna aelodau'r clwb, wrthi'n ddiwyd yn torri'r goeden yn ddarnau llai cyn eu symud i ochr y maes mewn da bryd cyn agor y tymor criced newydd yr wythnos hon. Mae'r clwb yn gobeithio digolledu peth o gostau clirio'r goeden o'i safle maes o law trwy werthu cofroddion.

Ond er y tristwch a deimlwyd o golli'r goeden hon o'r maes chwarae, mae'n braf adrodd y newyddion da bod derwen arall Parc Glyn yn parhau ar ei thraed rhyw 50 metr i'r de o'r ffin chwarae, yn agos at lan afon Elái. Yn wahanol i'r goeden sydd wedi cwympo, mae'n amlwg o edrych arni ei bod wedi gweld dyddiau gwell – sy'n fawr o syndod oherwydd credir ei bod tua 1,000 o flynyddoedd oed. Mae'n anodd credu bod y dderwen hon wedi goroesi cyhyd gan bod yr arbenigwyr fu'n ei hasesu rai blynyddoedd yn ôl o'r farn bod ein hynafiaid wedi cynaeafu canghennau isaf y goeden dros y canrifoedd i godi adeiladau neu i greu celfi derw. Felly, wrth i ni ffarwelio ag un goeden, dymunwn hir oes arall i'r dderwen unig sydd bellach ar ôl ym Mharc Glyn.



[DS Tynnwyd llun y goeden ar frig yr adroddiad ychydig fisoedd cyn iddi gwympo i'r llawr ym mis Ionawr eleni, a thynnwyd y llun o'r goeden sydd wedi goroesi am fileniwm cyfan yn ystod haf 2020.]

**Y Cythraul Canu**




Ar ddechrau Ebrill, cyhoeddwyd llyfr newydd gan yr hanesydd lleol a'r awdur toreithiog Dean Powell, Llantrisant. Yn *A Royal Choir for Wales* mae'n dathlu cyfoeth diwylliannol disglair 'gwlad y gân' mewn cyfnod cyffrous iawn yn hanes corau meibion Cymru yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r gyfrol yn olrhain dylanwad tri o'u harweinyddion. Y mwyaf dylanwadol ohonynt oedd 'Caradog' (Griffith Rhys Jones) a ffurfiodd gôr o dros 400 o leisiau fu'n fuddugol mewn gornest enwog iawn yn y Palas Grisial yn Llundain. Esgorodd y fuddugoliaeth ar sefydlu dau gôr yng nghymoedd y Rhondda, ac aeth y ddau ben-ben â'i gilydd mewn eisteddfodau a chystadlaethau corawl eraill. Mewn byr amser roedd arweinwyr y ddau gôr, William Thomas a Tom Stephens, fel Caradog yntau, yn arwyr cenedlaethol. Mae'r awdur yn ein hatgoffa y byddai miloedd o gefnogwyr brwd yn tyrru i wylio'r cystadlaethau corawl rhyngddynt, a byddai hynny'n arwain yn aml at helynt ar y strydoedd. Mewn gwirionedd, roedd y tensiwn rhwng cefnogwyr y corau hyn yn gwneud i'r casineb sy'n bodoli heddiw rhwng cefnogwyr yr Adar Gleision a'r Elyrch ymddangos fel chwarae plant! Llongyfarchiadau i Dean Powell ar lunio llyfr hynod o ddifyr. Mae modd archebu copi o'r llyfr am £12.99 trwy gysylltu â'r awdur ar ebost: dean@llantrisant.net.

**Gorau Chwarae, Cyd-chwarae**

O'r diwedd, mae timau rygbi a phêl-droed i blant ym Mhont-y-clun a Llantrisant wedi ailddechrau ymarfer wedi i'r cyfnod clo diweddaraf lacio. Mae Clwb Rygbi Llantrisant yn chwilio am ragor o blant i ymuno â nhw yn eu hymarferion a gynhelir ar nos Fercher ar gae artiffisial Ysgol y Pant. Yr un yw'r newyddion am ailddechrau ymarferion i blant yng Nghlwb Criced Meisgyn, a hynny mewn da bryd ar gyfer y tymor newydd.

**Cwis**

Bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Llanhari yn recordio rhaglen S4C 'Un Cwestiwn' yn ddiweddar. Cwis gwybodaeth gyffredinol a datrys problemau yw hwn, ond bydd raid aros yn amyneddgar tan fis Medi i weld sut hwyl gawson nhw.

**Marchnad Newydd Pont-y-clun**

Am 10 o'r gloch fore Sadwrn 24 Ebrill, ar ddiwrnod bendigedig o wanwyn, agorwyd marchnad awyr agored newydd Pont-y-clun am y tro cyntaf. Nod y datblygiad yw rhoi cyfle i fusnesau bach lleol dynnu sylw'r trigolion at eu cynnyrch. Braf oedd gweld nifer dda yn bresennol a gwerthiant calonogol i'r amrywiaeth o gynnyrch oedd ar gael, yn deisennau blasus, llysiau ffres, bwyd y môr, crefftau a llawer iawn mwy. Mae'r farchnad wedi ei lleoli yn y maes parcio ar bwys tafarn y Windsor, a'r bwriad yw ei chynnal ar ddydd Sadwrn olaf pob mis rhwng 10 y bore a 2 y pnawn. Cofiwch alw draw i gefnogi'r fenter newydd gyffrous hon.



*Un o'r stondinau niferus yn y farchnad.*

**Ail-agor Cae Chwarae**

Dros yr wythnos nesaf, disgwylir y caiff y cae chwarae ym mhen pellaf Maes y Wennol, Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn ei ailagor gydag amrywiaeth o offer newydd sbon fydd at ddant plant yr ardal gyfagos. Bu'n rhaid cau'r lle chwarae am ychydig amser oherwydd cyflwr peryglus y lloriau dan yr offer, ond manteisiwyd ar y cyfle i archebu a gosod offer newydd hefyd. Eisoes mae'r rhan fwyaf o'r offer yn ei le a'r cam olaf fydd gosod lloriau newydd. Hyderwn y caiff cenhedlaeth newydd o blant ifanc lawer o fwynhad o'r adnodd pwysig hwn.



*Y gweithwyr wrthi'n brysur yn gosod sylfeini'r offer newydd.*

# Curo'r Corona'n Coginio

Eluned Davies-Scott

## Beth sydd mewn enw?

Fel y gwyddoch os ydych yn darllen y golofn hon yn rheolaidd, neu'n gwrando ar fy sgyrsiau gyda Shân Cothi, mae gen i ddiddordeb yn hanes ag enwau bwyd. Yn ddiweddar gofynnodd un o aelodau fy ngrŵp coginio a fyddai'n bosibl paratoi Quiche Lorraine yn un o'n sesiynau coginio ar lein. Wrth gwrs, roedd yn rhaid imi edrych i mewn i darddiad y rysáit. Nid yw'n cael ei enwi ar ôl person, ond rhanbarth yng ngogledd ddwyrain Ffrainc ychydig islaw ffin yr Almaen. Roedd yr ardal yn deyrnas ganoloesol a enwir Lothringen a reolwyd gan yr Almaen. Cafodd ei ailenwi'n Lorraine gan y Ffrancwyr. Arferai llawer o drigolion siarad tafodiaith hanner Almaeneg, hanner Ffrangeg ac mae "quiche" yn deillio o'r gair Almaeneg am gacen (kuchen). Mae'r rysáit gwreiddiol hefyd yn cael ei ddylanwadu gan ddiwylliant yr Almaen gyda'r quiche dilys yn cynnwys hufen trwm, wyau, a chig moch neu ham. Felly roedd yn bastai cwstard wy wedi'i bobi mewn crwst brioche. Dim ond yn fwy diweddar ychwanegwyd caws Gruyere a'r defnydd o grwst brau.

Mae cogyddion yn hoffi dyfeisio enwau ar gyfer eu seigiau ac mae rhai yn ennyn eu gwreiddiau e.e. *coq au vin* a *tripes à la mode de Caen* (h.y. ceiliog wedi'i goginio mewn gwin, tripe yn y ffasiwn Caen). Mae ryseitiau eraill yn defnyddio enw'r cogydd neu'r rhai y cawsant eu dyfeisio ar eu cyfer.

Caesar Cardini ddyfeisiodd y *Caesars Salad* yn 1924 ac fe ddaeth y saig yn boblogaidd yn ystod rhan gyntaf yr 20fed ganrif. Does dim anchovies yn y rysáit gwreiddiol, saws Worcestershire sy'n cyfrannu'r blas gyda garlleg a chaws Parmesan. Mae gwesty'r Waldorf yn enwog am y salad a grëwyd yno yn 1896, gan y prif gogydd Oscar Tschirky, ar gyfer noson elusennol i anrhydeddu ysbyty plant yn Efrog Newydd. (Gyda llaw, doedd dim cnau Ffrengig yn y salad Waldorf gwreiddiol ond maen nhw yn ymddangos yn llyfr 1896 *The Cook Book by "Oscar of the Waldorf").* Yn ôl y chwedl, dyfeisiwyd *Eggs Benedict* hefyd gan y prif gogydd hwn ac mae'n seiliedig ar frecwast archebodd Lemuel Benedict, brocer o Wall Street yn 1894. Gofynnodd am ddau wy wedi'i botsio ar ben tost menyn, gyda chig moch creisionllyd a hollandaise i'w frecwast. Fe ddaeth hyn yn sail i'r rysáit a grëwyd gan Tschirky sy'n parhau i fod yn boblogaidd.

Cafodd *Peach Melba* ei greu gan y cogydd enwog Escoffier ym 1893 i anrhydeddu'r Fonesig Nellie Melba. Mae'n debyg fod *Pizza Margharita* wedi ei ymddangos gyntaf i anrhydeddu ymweliad brenhines yr Eidal â Napoli yn 1889. Mae'n cyfuno tomatos, caws mozzarella a basil ffres i symboleiddio baner yr Eidal.

Beth am seigiau enwog cig eidion? Nid oes cytundeb ar darddiad y *Stroganoff.* Mae wedi ei enwi naill ai ar ôl Alexander Grigorievich Stroganov oedd yn byw yn Odessa ac yn hoffi difyrru ei ffrindiau gyda gwleddoedd moethus neu'r Dug Paul Stroganov, diplomydd o'r 19eg ganrif. A'r enwog '*Wellington',* ai yn anrhydedd i'r Dug enwog ddyfeisiwyd y saig hon? Yn 2013, ymchwiliodd papur newydd The Telegraph y rysáit am *Beef Welligton* ac ni allent ddod o hyd i unrhyw ddefnydd o'r enw tan yr 20fed Ganrif a hynny mewn llyfrau coginio Americanaidd. Mae Geiriadur Saesneg Rhydychen yn cyfeirio at y saig yn cael ei weini yn Efrog Newydd yn 1939, bron ganrif ar ôl marwolaeth y dug enwog, Arthur Wellesley!

Gweiniwyd *Baked Alaska* i ddirprwyaeth o Tsiena oedd yn ymweld â Pharis yn 1867 Mae rysáit am *Alaska, Florida'* yn llyfr coginio Charles Ranhofer yn1893. Yn llyfr *Boston Cookery Book* Fannie Farmer gwelwyd yr enw cyfredol am y tro cyntaf mewn print yn 1909.

Credir yn gyffredinol mae yn yr UDA (San Francisco) ceir gwreiddiau *Chop Suey* ond nid yw hyn yn wir yn ôl Li Shu-fan o Hong Kong. Bwyd lleol o Toisan, ardal wledig o Ganton yw, cartref rhan fwyaf o fewnfudwyr i California. Yr enw Cantoneg yw *tsap seui* h.y. sbarion amrywion o lysiau wedi eu ffrio (stir-fry) gydag ysgewyll ffa a nwdls

Dau arall sydd â chefndir diddorol yw'r toesenni siwgrog (doughnuts) a chaws Stinking Bishop.

Mae'r cofnodion yn dyddio'r toesenni siwgrog yn ôl i ganol y 19eg ganrif, pan oedd pobyddion yr Iseldiroedd yn gwneud 'olykoeks'. Cacennau olewog siâp peli wedi'u ffrio mewn braster porc oedd y rhain. Oherwydd na fyddai canol y gacen yn coginio mor gyflym â'r tu allan, roedd y crwst weithiau'n cael eu stwffio â ffrwythau neu gnau, nad oedd angen eu coginio. Stori arall yw bod Elizabeth Gregory, mam i gapten llong, wedi paratoi toes wedi'i ffrio i'r criw ar fordeithiau hir. Fe wnaeth hi stwffio'r toes gyda chnau a chyfeirio at y danteithion fel 'doughnuts'. Yn ôl ei mab, Hanson Gregory, dyfeisiodd y siâp cylch cyfarwydd ym 1847, tra ar fwrdd ei long. Mewn ymdrech i gael gwared ar y tu mewn amrwd, mae'n honni ei fod wedi cynhyrchu'r toesenni cyntaf gyda thwll trwy ganol y toes (gan ddefnyddio blwch pupur tun y llong i wneud hyn).

Yn 1972 dim ond 68 o heffrod bridio Caerloyw oedd ar ôl yn y byd a fe'u prynwyd gan un ffermwr, Charles Martell. Erbyn hyn mae'r rhif wedi cynyddu'n sylweddol gyda'r llaeth yn cael ei ddefnyddio, gyda llaeth wartheg Ffrisian, i wneud y caws a elwir *Stinking Bishop.* Daw'r arogl nodedig o'r broses aeddfedu pryd mae'r caws yn cael ei drochi mewn pery wedi'i wneud o fath o ellyg lleol sy'n cael ei galw 'Stinking Bishop'. Cafodd y caws hwn sylw rhyngwladol yn ffilm Wallace & Gromit yn 2005 *The Curse of the Were-Rabbit*, lle mae Gromit yn ei ddefnyddio i adfywio Wallace. Yn dilyn hynny, cododd y galw am y caws 500%.

A dyna i chi, rhywfaint o hanes enwau bwydydd cyfarwydd; wyddoch chi byth pryd bydd y wybodaeth ddibwys hon yn ddefnyddiol ar gyfer cwis yn y dyfodol!



Os am roi tro ar wneud **Quiche Lorraine** traddodiadol dyma'r addasiad dwi wedi ei ddewis ar ôl darllen am sawl fersiwn.

Crwst brau ddefnyddir. Gellir defnyddio menyn a lard neu Trex i gael blas ac ansawdd da. Mae Felicity Cloake yn defnyddio pwysau cyfartal o flawd a menyn i wneud crwst haenog bras (rough puff) ond mae hyn yn gwneud y crwst yn anodd ei drafod ac yn broses sy'n cymryd amser. Crwst haenog yw dewis Dan Lepard. Dylai'r cwstard fod yn gyfoethog gan ddefnyddio hufen dwbl os am ddilyn rysait Felicity Cloake. Mae hi hefyd yn defnyddio 4 wy a 2 melyn wy sydd, i mi, yn gwneud y cwstard braidd yn rhy solet. Does dim caws yn y rysáit gwreiddiol. Gallwch arbrofi gyda'r cynhwysion, ond mae'n bwysig i Quiche go iawn gael ei bwyta'n ffres.

Fel Delia Smith, dwi bob amser yn defnyddio tun fflan 23cm metal gyda gwaelod rhydd er mwyn cael y gwaelod i goginio'n dda.

Gwnewch grwst brau gyda 250g blawd plaen a 125g menyn yn syth o'r oergell wedi ei dorri'n fân a dŵr oer iawn (dwi'n rhoi ciwb o rew ynddo) Dwi'n gwneud y crwst mewn proseswr bwyd gan fod yn ofalus i beidio gor-gymysgu. Rhowch y crwst mewn haenen lynu yn yr oergell am o leiaf 30 munud.

Defnyddio ffwrn ar180C/Ffan 160C/Nwy 4 a rhoi hambwrdd pobi i gynhesu yn y ffwrn. Rholio'r crwst yn gylch ychydig yn fwy na'r tun pobi a bod yn ofalus wrth ei roi yn y tun i osgoi tyllau ynddo! Wedyn gadel iddo orffwys am 15-20 munud cyn tocio'r min.

Rhoi papur pobi a ffa pobi yn y fflan cyn ei choginio yn 'ddall' ar yr hambwrdd pobi poeth am tua 30 munud yna tynnu'r papur a'r ffa allan a brwsio'r gwaelod gydag ychydig o wyn wy cyn ei rhoi yn ôl yn y ffwrn am 10-15 munud i'r gwaelod gael coginio.

I'r llenwad mae angen 150-200g 'lardons' wedi mygu (neu gallwch ddefnyddio cig moch brith); 3 wy ac 1 melyn wy, 150ml llaeth cyflawn a 150ml hufen dwbl a phinsiad o halen wedi ei chymysgu â'i gilydd yn dda; 75g caws Gruyer wedi gratio.

Mae angen ffrio'r cig moch gyntaf a'i roi ar bapur cegin i gael gwared ag unrhyw saim sydd wedi dod ohono. Rhoi'r cig moch yn y fflan, ychwanegu'r cwstard ac yna'r caws. (Mae rhoi'r hylif trwy ridyll yn gwneud y cwstard yn llyfn.)

Coginio am tua 20 munud, dylai'r cwstard fod yn euraidd ond gydag ychydig o 'wobble'. Gadael i'r fflan oeri ychydig cyn gweini.

# Ysgol Creigiau

**PROSIECT PERLLANNAU FFRWYTHLON**

Ar ôl i ni ddychwelyd i'r ysgol wedi gwyliau'r Pasg aeth Dosbarth 4 a 5 allan ar gae'r ysgol i blannu coed ffrwythau. Rydym wedi ymuno â Phrosiect Perllannau Ffrwythlon Cyfoeth Naturiol Cymru. Derbynion ni goed ffrwythau am ddim i greu ein perllan ein hunain. Mae'r prosiect yn darparu cyfleoedd i wella cysylltiad plant â natur, tra hefyd yn cynyddu bioamrywiaeth drwy greu cynefinoedd newydd gyda bwyd i adar a phryfed. Edrychwn ymlaen at weld ein coed yn tyfu.



**GŴYL LLENYDDIAETH PLANT CAERDYDD**

Ym mis Ebrill cymerodd nifer o ddosbarthiadau ran yng Ngŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd. Mae Gŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd yn ddigwyddiad cyffrous, blynyddol sydd wedi'i anelu'n bennaf at blant rhwng 3 a 12 oed. Ers 2013, nod yr ŵyl fu helpu i greu darllenwyr gydol oes ac felly, bob blwyddyn maent yn llunio rhaglen orlawn o awduron, darlunwyr a gweithdai i ddifyrru ac ennyn brwdfrydedd plant am ddarllen. Mwynheuodd disgyblion Dosbarth 3 a Class 3 sesiwn gyda'r awdur a'r digrifwr Ben Miller a ddarllenodd a thrafododd ei lyfr 'The Day I Fell into a Fairytale'. Fe fwynheuodd Dosbarth 6 a Class 6 sesiwn gyda'r awdur Cath Howe a drafododd ei llyfrau 'Ella on the Outside' a 'How to be Me'. Ymunodd Class 1 ag ysgolion eraill ledled Caerdydd mewn sesiwn ar-lein gyda'r awdur Simon James Green a'r darlunydd Garry Parsons. Disgyblion Class 1 hefyd oedd y plant cyntaf yn y byd i glywed eu stori newydd 'Fabulous Frankie' sy'n cael ei rhyddhau ym mis Mehefin. Diolch i Ŵyl Llenyddiaeth Plant Caerdydd am roi'r profiadau gwerthfawr yma i'n disgyblion.

**HWYL A SBRI AR GAE'R YSGOL**

Wrth i'r tywydd gynhesu mae'r disgyblion wedi bod wrth eu boddau yn chwarae gyda'u ffrindiau ar gae'r ysgol. Fe'u cedwir yn ddiogel yn eu swigen dosbarth oherwydd haelioni ein rhieni a gofalwyr yn cyfrannu at weithgareddau codi arian Cyfeillion yr Ysgol. Rydym wedi prynu rhwystrau er mwyn rhannu'r cae yn bum parth. Diolch yn fawr i Gyfeillion yr Ysgol a'n holl deuluoedd.



**PC CERI CROSS**

Mwynheuodd disgyblion Dosbarth 3 sesiwn am Ddiogelwch Ar-lein gyda PC Ceri Cross, Swyddog Heddlu Cymunedol yr Ysgol. Roedd y disgyblion yn cytuno bod y wers wedi bod yn hynod o ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth defnyddiol.

**SGWTERI**

Yn ddiweddar cawsom set o 10 sgwter a set o gynlluniau gwersi sgwter gan Dîm Diogelwch a Hyfforddiant Ffyrdd Cyngor Caerdydd. Cafodd Dosbarth 5 a Class 5 gyfle i dreialu'r sgwteri a'r cynlluniau gwers i ddechrau. Mwynheuon nhw'r profiad yn fawr. Bydd pob dosbarth yn eu tro yn cael y cyfle i ddefnyddio'r sgwteri ar iard yr ysgol.

# Cyfle am waith fel tiwtor Cymraeg

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwilio am bobl i weithio fel tiwtoriaid Cymraeg yn dilyn blwyddyn brysur o wersi ar-lein.

Gobaith y Ganolfan yw casglu cronfa o enwau fyddai â diddordeb gweithio fel tiwtor, gyda'r oriau gwaith yn gallu amrywio o ddwy awr i dros 20 awr yr wythnos.

Mae'r Ganolfan yn chwilio am diwtoriaid ym mhob cwr o Gymru.

Yn ôl Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, "Mi ydym ni yn chwilio am griw newydd, brwdfrydig i ymuno gyda'r tiwtoriaid gwych sydd eisoes yn gweithio gyda ni.

"Mae profiad dysgu blaenorol neu wybodaeth am ddysgu iaith yn ddelfrydol, ond brwdfrydedd ac ymroddiad at y Gymraeg yw'r nodweddion sy'n hollbwysig. Mae galw parhaus am diwtoriaid i ddysgu'r miloedd o oedolion sy'n cofrestru ar gyrsiau gyda ni bob blwyddyn."

Mae'r dysgwyr yn dysgu ar bum lefel wahanol – o gyrsiau Mynediad ar gyfer dechreuwyr, i gyrsiau Uwch a Hyfedredd ar gyfer siaradwyr profiadol.

Caiff dosbarthiadau fel arfer eu cynnal wyneb-yn-wyneb, mewn cymunedau, ond o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau sydd wedi dod yn ei sgîl, mae'r ddarpariaeth i gyd ar-lein ar hyn o bryd, gyda chyrsiau yn cael eu cynnal mewn dosbarthiadau rhithiol.

Ychwanegodd Helen, "Yn ogystal â dysgu'r iaith, mae gan diwtoriaid rôl hollbwysig i'w chwarae i gefnogi dysgwyr a chroesawu siaradwyr newydd, gan gyflwyno cyfleoedd i ddysgwyr fwynhau defnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

"'Dyn ni'n ymfalchïo'n fawr yn ein tiwtoriaid ni sy'n rhan gwbl greiddiol o genhadaeth y Ganolfan, i ddenu a chefnogi siaradwyr newydd y Gymraeg. Mae brwdfrydedd ac egni'r tiwtoriaid yn gwneud y profiad yn un cofiadwy a chyffrous i'r dysgwr. 'Dyn ni'n annog unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno â'r sector gyfeillgar a chefnogol yma, i gofrestru eu manylion."

I gofrestru eich diddordeb, ewch i: https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/recriwtio-tiwtoriaid/



# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Brysiwch Wella**
Dymunwn yn dda i Wayne Williams, Penywaun a gafodd ddamwain gas wrth beintio'r tŷ. Mi ddisgynnodd o ben ysgol a gorfod cael triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda hefyd i John Edwards, Penywaun ac i Gwilym Treharne, Nant y Felin, a'r ddau heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Brysiwch wella fechgyn. Mae'r Cwrs Golff yn Y Creigiau yn awyddus i'ch croesawu'n ôl.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Carol a Howard Bayliss a'r plant, Elliott, Lydia a Gwennan, yn Heol Iscoed ar golli mam Carol yn sydyn iawn ar yr ail o Ebrill. Ychydig o flynyddoedd yn unig sydd ers i Mrs Gwyneth Jones a'i diweddar ŵr, William ddod i fyw i'r Creigiau ar ôl bod yn ffermio yn Y Betws, ger Llanpumsaint yn Sir Gaerfyrddin. Symudodd y ddau i Creigiau er mwyn bod yn nes at y merched sydd yn byw yn yr ardal. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Bethel, Pontyclun ar ddydd Mercher, Ebrill 21ain. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu galar.

**Priodas**



Pleser yw cael cofnodi priodas Ffion Rees a Chris Storey. Merch Alun a Heulwen Rees, Heol Iscoed yw Ffion ac mae Chris yn hanu o Upper Balinderry, Lisburn, Belfast. Wyth yn unig o'r teulu agosaf fynychodd y briodas yn Neuadd y Ddinas yn Belfast ar Fawrth 5ed oherwydd cyfyngiadau'r feirws. Mae'r pâr ifanc yn gobeithio cynnal parti priodas i'w ffrindiau a'r teulu ar Fferm Rosedew yn Llanilltud Fawr y flwyddyn nesaf sef Mawrth 5ed 2022. Mae Ffion newydd ddechrau gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf ac mae Chris yn brif ddylunydd i gwmni Royal Enfield. Mae'r ddau ar fin symud yn ôl i'r ardal i fyw. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

**Y TABERNACL**
**Gwellhad buan**
Da clywed fod Ifan Roberts, Maes yr haul yn well ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dwi'n siŵr fod dy ffrindiau yn Y Tabernacl am ddymuno'n dda i ti.

**Rhoddion Y Pasg**
Soniais yn rhifyn Ebrill Tafod Elái fod Gweithgor Cymorth Cymdeithasol Y Tabernacl am ddathlu'r Pasg drwy gasglu Wyau Pasg, danteithion a nwyddau hylendid ar gyfer Cymorth i Ferched ac elusen POBL. Cafodd aelodau'r Gweithgor eu syfrdanu gan yr ymateb hael gan yr aelodau a ffrindiau'r tabernacl. Roedd blaen y capel yn orlawn o nwyddau ac Wyau Pasg.

**Croeso Rhiannon**
Pan fu farw Jane Eryl Davies dros flwyddyn yn ôl gadawodd fwlch mawr i'w lenwi yn Oedfaon Bedydd Y Tabernacl. Mae'n braf cael cyhoeddi fod olynydd teilwng iawn wedi camu i'r bwlch. Mae Rhiannon Humphreys wedi cytuno i weinyddu'r bedyddiadau pan fydd y llacio ar y cyfyngiadau presennol yn caniatáu i hynny ddigwydd yn ddiogel. Diolch o galon Rhiannon am dy barodrwydd i ymgymryd â'r swydd.

**Dechrau Canu Dechrau Canmol**
Nos Sul, Ebrill 25ain gwelwyd un o aelodau'r Tabernacl ar y rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol. Yr amryddawn Edwyn Evans, cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd y "seren". Roedd y rhaglen eisoes wedi ymweld â chymuned Silian yng Ngheredigion i ddathlu Wythnos Genedlaethol Garddio cyn ymweld â rhandir Edwyn a'i weld yn plannu, twtio a thacluso. Soniodd ei fod wrth ei fodd yn yr ardd a bod treulio dwy neu dair awr yno yn falm i'r enaid yn ogystal â helpu cadw'r corff yn iach.



Soniodd hefyd am y criw bach dethol sy'n cyfarfod ar dir Y Tabernacl pob bore Iau i dacluso a chlirio'r lle. Does dim diwedd ar dalentau Edwyn pan welwyd ef yn gyrru JCB bach i hwyluso'r gwaith o symud a chlirio'r tyfiant gerllaw'r fynwent.



Breuddwyd y criw bach yma o weithwyr fydd sefydlu gardd gymunedol. Lle i aelodau'r Tabernacl a thrigolion y pentref i ymgynnull i sgwrsio a myfyrio ac i rannu syniadau. Profiadau sydd wedi bod yn brin iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda'r clo mawr yn ein caethiwo. Eglurodd Edwyn fod treulio amser ar eich pen eich hunan yn achosi i berson hel meddyliau ac efallai arwain at afiechyd meddwl yn y pendraw. Roedd y rhiwbob a gododd Edwyn o'r rhandir yn tynnu dŵr i'r dannedd!!

**Gwobr haeddiannol**
Dwi'n siŵr y byddai aelodau'r Tabernacl yn awyddus i longyfarch John Llewelyn Thomas a dderbyniodd dystysgrif i gydnabod ei wasanaeth arbennig i'r gymuned gan Jason Edwards, Uchel Siryf Morgannwg Ganol. Derbyniwyd tystysgrif hefyd gan aelodau'r Tabernacl am eu gwaith gwirfoddol hwythau i helpu'r gymdeithas.

Diolch hyn fawr John, am dy arweiniad a'th waith diflino. Llongyfarchiadau gwresog.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
### Yr Haul – ein Ffrind, ein Gelyn

Ar Nos Lun Ebrill 19eg cawsom ni ddarlith hynod ddiddorol a chofiadwy gan Huw Morgan o Brifysgol Aberystwyth ar 'Yr Haul - ein ffrind, ein gelyn'. Daw ystyr y teitl yn glir yn hwyrach yn y ddarlith. Dechreuodd Huw drwy sôn rhai ffeithiau sylfaenol am yr Haul – mae ei gyfaint yn 1.3 miliwn gwaith cyfaint y Ddaear, ac mae 99.8% o fas system yr Haul ynddo! Rydym yn deall mai ymasiad niwclear yw tarddiad egni'r Haul ers 1939 ac yn deall y broses yn dda.

Yna soniodd Huw am Gorona, nid y firws sy'n ein llethu ar hyn o bryd, ond yn hytrach atmosffer yr Haul a elwir yn gorona'r Haul a ellir ond ei weld yn glir mewn eclips Solar. Arweiniodd mesuriadau o'r corona yn ystod eclips 1868 at ddarganfyddiad yr elfen Heliwm cyn iddo gael ei weld ar y Ddaear. Yn y flwyddyn ganlynol, 1869 gwelwyd awgrym o elfen newydd arall a enwyd yn 'Coroniwm' a bu cryn chwilio amdano, nes sylweddolwyd mai atomau o haearn wedi eu cynhesu i dymheredd eithafol oedd Coroniwm. Mae yn ddirgelwch, hyd yn oed heddiw, sut mae cynhyrchu'r tymheredd angenrheidiol o dros 1 miliwn gradd canradd.

Yna aeth Huw a ni'n agosach at wyneb yr Haul, lle mae'r maes magnetig enfawr yn gallu achosi ffrwydradau ar wyneb yr Haul. Gwelwyd un o'r ffrwydradau yma yn 1869 gan y seryddwyr Richard Carrington a Richard Hodgson. Yn fuan wedyn, amharwyd ar systemau telegraff y byd wrth i'r Ddaear grwydro i lwybr y ffrwydrad. A dyma le gall yr Haul droi o fod yn ffrind i fod yn elyn. Nid oes neb yn siŵr pa effeithiau byddai ffrwydrad tebyg i ddigwyddiad Carrington yn ei gael ar ein bywyd bob dydd heddiw. Mae'n sicr bydd offer trydanol ac electronig yn cael ei effeithio - gallwn ond obeithio na chawn ddigwyddiad o'r fath cyn i ni gael systemau i'n hamddiffyn yn barod.

Rhys Morris

# Ysgol Dolau

**Bywyd Newydd**
Bu disgyblion yr ysgol yn ffodus iawn cyn wyliau'r Pasg gan iddynt gael y cyfle i gwrdd â ffrindiau newydd! Daeth ŵyn bach i'r ysgol i gwrdd â'r disgyblion ac roedd disgyblion pob dosbarth - o'r plant ieuengaf i'r rhai hynaf - wrth eu boddau yn cael dal yr anifeiliaid ac yn cael profiad newydd sbon o fod mor agos i anifeiliaid ffarm. Diolch yn fawr iawn i'r ffarm am alluogi hyn i ddigwydd!





**Beiblau Bach y Pasg**
Unwaith eto, mae ein dyled fel ysgol yn enfawr i aelodau Capel Carmel am eu haelioni. Adeg y Nadolig, cafodd y disgyblion feiblau bach Nadolig er mwyn dysgu am stori'r geni mewn ffordd lliwgar a hwylus. Cafwyd rhodd arall cyn y Pasg, mewn ffurf beibl bach Pasg lliwgar. Mae caredigrwydd aelodau Capel Carmel yn esiampl i ddisgyblion Dolau i gyd yn ystod y cyfnod anodd hwn ac yn brawf o bwer cymunedol.

**Peirianwyr y Dyfodol**
Bu disgyblion Dosbarth 3 yn dysgu sgiliau peirianneg wrth iddynt ymchwilio ac yna creu car. Aethant ati wedyn i ymchwilio gan ddefnyddio ramp a gwahanol ddefnyddiau. Braf oedd cael bod tu allan yn dysgu yn yr awyr agored - croesi bysedd am ddigon o dywydd braf yn yr wythnosau i ddod!



**Darganfod Deinosoriaid**
Mae'r holl ddisgyblion yn gyffrous tu hwnt am y thema newydd sydd wedi glanio ar dir ein hysgol y tymor hwn. Mae deinosoriaid wedi diflannu o'n planed ers miliynau o flynyddoedd, ond mae disgyblion Dolau wedi dod a'r creaduriaid nôl yn fyw! Un enghraifft o'r









dysgu creadigol a chyffrous sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol oedd helfa Dosbarth 2 a arweiniodd atynt yn darganfod wyau deinosor!

**Ffeindio Ffosiliau**
Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dysgu sut i fod yn archaeolegwyr, wrth iddynt grwydro ardal natur yr ysgol yn ceisio darganfod ffosiliau a fyddai'n eu helpu i ddysgu am ddeinosoriaid. Daethant o hyd i nifer o ffosiliau - arwydd clir a phendant bod deinosoriaid wedi bod yn crwydro ein hysgol miliynau o flynyddoedd yn ôl.





**Cyflwyno Cadair Eisteddfod yr Ysgol**
Tra oedden ni i gyd yn dal i fod yn y cyfnod clo, a'r disgyblion a'r athrawon yn brysur yn gweithio o adref, bu'r plant yn cymryd rhan yn Eisteddfod Rhithiol Ysgol Gynradd Dolau 2021! Cawson nhw'r cyfle i gystadlu mewn cystadlaethau megis llawysgrifen, celf, adrodd jôc Cymraeg a llefaru. Serch yr holl gystadlu brwd a fu, y gystadleuaeth euraidd oedd y gystadleuaeth am Gadair yr Eisteddfod. Wedi i ni ddychwelyd i'r ysgol i ddysgu, braint enfawr oedd cael cynnal seremoni caeedig i gael cyflwyno Robyn Jones (Dosbarth 8) gyda Chadair yr ysgol. Cadair Rhys Rubery, cyn ddisgybl o'n hysgol, yw'r gadair arbennig. Mae'n ein hatgoffa o flwyddyn i flwyddyn am ddisgybl disglair a rhoddodd bopeth i fywyd ysgol ac a gollwyd yn rhy ifanc o lawer. Hyfryd iawn yw gweld bod ysbryd ac egni Rhys yn parhau i fodoli yn ein disgyblion ifanc hyd heddiw.

**Cartrefi Cigysyddion**
Yn Nosbarth 1, mae'r disgyblion wedi bod yn adeiladu ogofau ar gyfer deinosoriaid. Mae'r plant bach i weld wrth eu boddau yn cydweithio er mwyn cyrraedd y nod.





# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon:** (rhithiol, hyd at y 23 o Fai)
Gobeithiwn y byddwn yn gallu ail-agor y capel ar gyfer cynnal gwasanaethau o'r 23ain o fis Mai ymlaen, ond, yn amlwg bydd yn rhaid cydymffurfio a rheoliadau Cofid fydd yn gyfredol bryd hynny.

Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gwrdd yn rhithiol o hyn hyd at yr haf.

**Mis Mai 2021:**
2 Mai – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
9 Mai – Oedfa Cymorth Cristnogol
16 Mai – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones
23 Mai – Oedfa dan ofal Merched y Capel
30 Mai – Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
**Mis Mehefin 2021:**
6 Mehefin - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

---oooOOOooo---

***"… On'd yw o'n bictiwr tlws,***
***Mae o'n wynnach na'r gwynnaf y sydd."***
[Rhan o Brolog Pryddest Goronog "Penyd" gan Caradog Prichard - Treorci 1928]

Pan ddaeth yn bryd dewis lliw paent i'n cegin, 'roedd cael cip ar y cardiau rheini sydd a gwahanol liwiau arnynt, yn rhes ar res di-ben-draw, yn ddigon i gychwyn rhyfel cartref yn tŷ ni!

Roedd 'na gymaint ohonynt yn wir fel nad oedd modd dewis un cyffredin a fyddai'n lliniaru'r broses flin honno, ond cyfaddawdu fu raid yn y diwedd, a does dim rhaid gofyn pwy wnaeth y dewis terfynol!

A'r dewis – "*blackened white*" – ia, ar fy llw – llwyd fyddwn i yn ei ddisgrifio, ond i'r bobl paent, gwyn wedi ei dduo ydi lliw o'r fath!

Ond wedi ei roi ar y muriau, rhaid cyfaddef fy mod yn ddigon hoff ohono!

Wn i ddim a fuaswn wedi llwyr ddiffygio petawn wedi dewis gwyn fel lliw, oherwydd bod yna gynifer o wahanol fathau o wyn yn cael eu marchnata, ond y dydd o'r blaen fe welais mewn erthygl ar un o'r myrdd wefannau sy'n dod a "newyddion" i'm sylw, bod y gwyddonwyr wedi datblygu paent sydd hyd yn oed yn "wynnach na'r gwyn a fodolai cyn hynny".

I'r gwyddonydd, mae'r paent gwyn blaenorol yn adlewyrchu rhwng 80% a 90% o olau'r haul, ond gall y paent "tra-gwyn" (*ultra-white*) yma adlewyrchu 98% o'r goleuni.

Rhagwelir y bydd gan y paent rhyfeddol yma ran amlwg yn yr ymdrech i leihau'n defnydd o ynni (e.e. mewn systemau awyru), ac yn ymladd newid hinsawdd (e.e. lleihau'r galw am ddŵr i irigeiddio).

Byddai paentio dim ond 1% o arwynebedd y ddaear yn fodd o leihau cynhesu byd-eang!

Deallaf, gyda llaw, bod paent "tra-du" (*ultra-black*) eisoes wedi ei gynhyrchu ers 2014, ac fe'i defnyddir wrth barhau'r ymchwil yn y gofod, lle mae cael gwared ar olau yn amlwg yn fantais i alluogi gweld ymhellach ac ymhellach i ddyfnderoedd y cread.

Ond gwyddom i gyd mai nid paent gwyn a phaent du sydd wedi bod yn cael y sylw mwyaf dros yr wythnosau diweddar yma.

Mae hiliaeth wedi ein hamgylchu, ac yn amlygu ei hun mewn sawl ffordd, fel na all yr un ohonom droi o'r neilltu a chymeryd arnom nad ydio'n bodoli o fewn cylch ein bywydau cysurus ni.

Cafodd adroddiad "annibynnol" y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig (*Commission on Race and Ethnic Disparities*), a baratowyd ar gais Llywodraeth Prydain, ei ddibrisio'n llwyr gan unigolion a chymdeithasau ac elusennau sy'n amlwg yn y maes, oherwydd y diffygion yn ei ganlyniadau a'i argymhellion.

Clywyd beirniadaeth gyson am hiliaeth o fewn chwaraeon, a lleisiwyd bwriad clybiau pêl droed proffesiynol i osgoi'r gwefannau cymdeithasol am bedwar diwrnod oherwydd y llid a'r bryntni a gynhwysir ac a gyfeirir, yn ddienw, at eu chwaraewyr.

A tydi Eglwys Loegr ddim yn ddi-frycheuyn chwaith oherwydd yr oedi mewn gweithredu ar ganlyniadau adroddiadau blaenorol ar gynrychiolaeth deg a theilwng o fewn rhengoedd yr esgobion ac eraill, a'r diffygion yn y strwythurau gweinyddol gydag apwyntiadau i'r swyddi rheini.

Yn sgil llofruddiaeth George Floyd, cafodd "Tasglu Gwrth-Hiliaeth" ei sefydlu gan Archesgob Caergaint ac Archesgob Caerefrog i ymateb i'r arafed yma, ac mewn Adroddiad brys, "*From Lament to Action*", a gyhoeddwyd ar yr 22ain o Ebrill (sef *Ddydd Stephen Lawrence*) addewir y bydd cryn ysgwyd ar y sefydliad o hyn hyd at fis Medi, a thu hwnt - "*mae edifeirwch yn gofyn mwy nac ymddiheuriad*" meddir.

A gan i mi hefyd grybwyll George Floyd, er nad ydi'r ddedfryd wedi ei chyhoeddi wrth i mi ysgrifennu'r llith yma, mae geiriau Esgob Minnesota, y Gwir Barchedig Craig Loya yn atsain yn ein clustiau - "*mae teimlad o gyfiawnder*" a hefyd "*hyd yn oed rhyddhad*" yn dilyn y dyfarniad, ond *"wnaiff hyn ddim gwella'r afiechyd o hiliaeth*".

Neges ysgytwol yn wir, sydd, fel y gwyddom, yn cael ei phrofi ddydd ar ôl dydd yn ôl yr adroddiadau mynych o'r wlad honno.

Ar chwiw, fel yr ydw'i wedi sôn mewn erthygl neu ddwy yn ddiweddar, fe fyddaf yn cael cip ar Beibl.net i wneud rhyw arolwg arwynebol o gynnwys neu ystyr ambell i air neu ddywediad, a dyma felly benderfynu chwilio am y ddau air "gwyn" a "du" ynddo.

Cewch y gair "***gwyn***" yn gysylltiedig â:- gwiail / bara / croen sych / chwydd / smotyn (smotiau) / lliain main / dillad brenhinol / gwallt / ceffyl(au) / dillad (dau angel) / a chwmwl.

Ond, sylwer, dim sôn am berson na phobl wyn!

[Noder, gyda llaw, nad yw'r Salm gyfarwydd gyntaf - "*Gwyn ei fyd y gŵr ni rodia yng nghyngor yr annuwolion…*" na'r "Gwynfydau" (Mathew 5) [Beibl William Morgan] yn cynnwys y gair "gwyn" yn Beibl.net!]

O ran y gair "***du***", yn ddiddorol ddigon, fe geir pedwar cyfeiriad at "ddyn du" fel a ganlyn:-

"milwr du o Affrica" [2 Samuel 18:21]

"Ydy dyn du yn gallu newid lliw ei groen?" [Jeremeia 13:23]

"Yna dyma Ebed-melech, dyn du o Affrica oedd yn swyddog yn y llys brenhinol…" [Jeremeia 38:7]

Roedd nifer o broffwydi ac athrawon yn yr eglwys yn Antiochia. Barnabas, Simeon (y dyn du) … [Actau 13:1]

Wnai ddim tynnu unrhyw gasgliadau o'r uchod, heblaw holi, a'i gweld pethau, yn ddiymwybod, yn "ddu a gwyn" a wnawn ninnau hefyd?

---oooOOOooo---

Diolch unwaith eto i'r holl gymwynaswyr sydd, yn ystod y mis a aeth heibio, wedi gofalu am ein hoedfaon a'r Ysgol Sul ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

Trist yw dwyn eich sylw at farwolaeth Gwyn Jones, gwr Vi Jones, gynt o Bentyrch. Roedd y ddau ohonynt wedi symyd i Gartref Gofal yn Llanllieni (Leominster), i fod yn nes at deulu, ers ychydig o flynyddoedd.

Roeddent yn aelodau ffyddlon ym Methlehem, ac fe gofiwch i ni ymweld a'r ddau ohonynt, pan oeddent yng Nghartref Gofal Danescourt, i gynnal oedfa Nadolig yn eu cwmni.

Rydym yn cofio yn annwyl iawn am Vi a gweddill y teulu yn eu profedigaeth."

# Dewch i Siarad RhCT - Newid yn yr Hinsawdd

Rydyn ni'n awyddus i glywed eich barn ar ein cynlluniau i helpu i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhain i'w gweld yn ein Strategaeth Ddrafft ar Newid yn yr Hinsawdd.

Mae sawl ffordd o gymryd rhan, gan gynnwys arolwg er mwyn i chi fynegi barn yn gyflym ac yn hawdd. Mae modd i chi hefyd gyflwyno'ch syniadau neu roi gwybod am yr hyn rydych chi, neu'ch sefydliad, yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Cymerwch ran – 'Dewch i Siarad RhCT – Newid yn yr Hinsawdd' https://dewch-i-siarad.rctcbc.gov.uk/

Mae Dewch i Siarad RhCT – Newid yn yr Hinsawdd ar agor tan ddiwedd mis Mai 2021. Cysylltwch os oes gyda chi unrhyw gwestiynau.

Carfan Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Ysgol Llantrisant

**Dychwelyd i'r ysgol**

Braf iawn oedd cael croesawu'r plant yn ôl i'r ysgol, y Cyfnod Sylfaen nôl ym mis Chwefror a'r Adran Iau ganol mis Mawrth. Roedd yn hyfryd i weld y plant yn hapus ac yn frwdfrydig a gweld eu hwynebau yn fyw o'n blaenau yn lle ar sgrîn gyfrifiadur!

**Hetiau Pasg**



Diolch o galon i blant y Cyfnod Sylfaen am weithio mor galed i greu hetiau ar gyfer y Pasg. Roedd pob un yn lliwgar a deniadol ac yn edrych yn wych.










**Cywion Blwyddyn 6**

O wyau siocled i wyau go iawn ac mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi croesawu saith cyw bach newydd. Maent wedi dilyn datblygiad y cywion yn ofalus, cyn iddynt ddeor hyd yn oed, trwy ddefnyddio fflach cryf a gan wrando arnynt yn galw o'r wy. Penderfynodd y disgyblion ar enwau'r cywion bach sef: Chewy, Darth Vader,



## Priodas Aur!

Llongyfarchiadau gwresog i John a Marian Evans, Radur ddathlodd eu priodas aur ar y degfed o Ebrill! Os oes rhywun yn haeddu dathliad - John a Marian yw'r rheiny! Ma' gan y clo 'ma lot i ateb drosto! Dim cacen na phaned, dim gwydraid yn yr ardd - fe ddaw 'na gyfle!





Oreo, Simba, Chip, Sunny a Caramel. Diolch i Mrs Hulse a Miss Richards hefyd am ofalu amdanynt dros y penwythnosau!

**Llongyfarchiadau**

Llongyfrachiadau enfawr i Jake Barclay am gael ei ddewis i chwarae dros dîm criced De Cymru (Performance Team). Bydd tîm De Cymru yn chwarae yn erbyn tîm Gogledd Cymru ac mi fydd y chwaraewyr gorau yn cael eu dewis i chwarae drod Gymru. Dymunwn bob hwyl iddo.



**Helpu eraill**

Da iawn Freya Parry, Blwyddyn 3, am feddwl am eraill wrth iddi roi 8 modfedd o'i gwallt i helpu plant sydd yn sâl iawn ac sydd methu fforddio prynu gwallt gosod. Syniad Freya oedd hyn – da iawn ti am fod mor garedig.





## Difyrion Digidol

Er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cofleidio'r byd digidol, mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ddiweddar wedi galw am sefydlu menter iaith ddigidol er mwyn datblygu cynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, beth sydd ar gael ar hyn o bryd?

Dwi'n siŵr eich bod yn gyfarwydd iawn gyda llawer o'r adnoddau a'r gwefannau sy'n bodoli eisoes. O ran y newyddion, wrth gwrs, fe ellir darllen gwefan https://golwg.360.cymru/ neu https://bro.360.cymru/ i ddarllen newyddion o'ch milltir sgwâr. Mae www.Lleol.cymru yn ffordd dda o gadw llygaid ar newyddion lleol a chenedlaethol heb son am chwilio am swydd lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol. Datblygiad newydd iawn ydi dyfodiad ap newydd newyddion S4C sydd yn wasanaeth cwbl newydd, gellir llwytho'r ap ar Google play.

Un o wefannau mwyaf y Gymraeg yw BBC Cymru Fyw. Ceir yno lond gwlad o erthyglau, cyfweliadau ysgrifenedig ac eitemau fideo o'r ysgafn i'r difrifol i gyd mewn un lle https://www.bbc.co.uk/cymrufyw Digon i'ch cadw'n brysur am oriau.

Gwasanaeth fideo poblogaidd tu hwnt yw Hansh https://www.facebook.com/hanshs4c/ sy'n profi'n boblogaidd iawn, ble y trafodir pob mathau o bynciau mewn ffordd gynnil a difyr.

Mae'n werth hefyd croesawu gwefan newydd wych y Papurau Bro sy'n brosiect ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru https://papuraubro.cymru/ Ewch yno i chwilio am eich papur bro chi.

Yn ystod y cyfnod clo, mae'r ap a'r platfform cymunedol Ambobdim wedi sefydlu'i hun ymhlith y platfformau mwyaf poblogaidd yn y Gymraeg yn darlledu cyngherddau, cyfweliadau, gigiau, gwyliau gan ddiddanu pobl o foethusrwydd eu soffa. Mae'n werth galw heibio ar wefan Ambobdim https://www.amam.cymru/ambobdim i weld beth sydd ar y gweill. Mae'n wefan brysur tu hwnt sy'n llawn o gynnwys diddorol.

Er mwyn cael mynediad i'r holl bodlediadau Cymraeg sydd ar y We, ewch i'r https://ypod.cymru/. Mae gwefan http://Meddwl.org er enghraifft yn llawn o gynnwys hanfodol ar gyfer hybu eich iechyd meddwl. Mae ôl yr Iaith Gymraeg yn sylweddol ac mae'n hanfodol ein bod fel siaradwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn. Mae yna rywbeth at ddant pawb ac mae'r cynnwys yn berthnasol iawn.

Er hynny, mae angen mwy o gynnwys a mwy o blatfformau i apelio at y genhedlaeth yma a'r genhedlaeth nesaf. Rydym fel diwylliant yn cystadlu yn erbyn diwydiant enfawr eingl-americanaidd, a heb yr adnoddau ariannol anferth, mae'n dalcen caled i fedru cystadlu.

Mae gan Cymunedau Digidol Cymru sesiwn 'Y Gymraeg ar y We' yn bwrw golwg ar yr adnoddau hyn, mae croeso i e-bostio Cymunedau.Digidol@wales.coop i drefnu hyfforddiant am ddim.

# Ysgol Tonyrefail

**Dysgu yn yr Awyr Agored**
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i ddathlu wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored a Diwrnod y Ddaear. Roedd y gweithgareddau amrywiol yn cynnwys mesur cylchedd boncyffion coed, mesur maint safle'r ysgol, arlunio yr ardal leol, chwilio am drychfilod a phlannu blodau. Roedd pawb yn cytuno fod dysgu yn yr awyr agored yn llawer o hwyl!



Bl2 yn mwynhau gwersi yn yr awyr agored

**Creu Baneri**
Diolch yn fawr i ddisgyblion Blwyddyn 5a 4 am greu baneri pinc i helpu i addurno Tesco Tonysguboriau. Roedd Tesco yn dathlu 20 mlynedd o gefnogi yr elusen cancr 'Race for Life', drwy addurno y siop gyda baneri pinc.

**Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn**
Mae Dosbarth Mr Hughes wedi bod yn brysur eto eleni yn casglu a chofnodi gwybodaeth wyddonol ar gyfer Astudiaeth Bylbiau'r Gwanwyn i ysgolion, prosiect sydd yn cael ei redeg ar y cyd rhwng Edina Trust ac Amgueddfa Cymru. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled.

**Cwis yr Urdd**
Diolch yn fawr iawn i Jordan Morgan-Hughes am drefnu a chynnal cwis hwyliog gyda phlant yr Adran Iau. Roeddynt wedi mwynhau yn arw ac wedi dysgu llawer o ffeithiau diddorol.



Cwis yr Urdd



Creu baneri



Rhai o faneri Bl 4 a 5 oedd i'w gweld yn Tesco



Gweithgareddau celf a gwyddoniaeth Bl1 yn y goedlan



Mae mathemateg yn hwyl!



Mesur o gwmpas safle'r ysgol



Prysur yn plannu blodau



Y Dosbarth Meithrin yn chwilio am drychfilo



Arlunio'r olygfa o gaeau'r ysgol



Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn

# Panel Darllenwyr Cymraeg

**Beth yw Panel Darllenwyr?**
Mae Paneli Darllenwyr yn gyffredin yn y GIG ledled y DU ac mae gan nifer fawr o gyrff iechyd Banel neu Grŵp Darllenwyr. Mae'r Paneli yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n gwirfoddoli eu hamser i ddarllen taflenni gwybodaeth i gleifion. Mae'r cam hwn yn hynod o bwysig i ddiogelwch y wybodaeth hon, ac mae gofyn i ddarpar ddarllenwyr ddarllen gwybodaeth yn ein helpu i wneud dau beth. Yn gyntaf, bydd yn ein helpu i sicrhau bod y wybodaeth yn ddiogel; ystyr hyn yw eich bod wedi deall y neges arfaethedig, neu'r neges roedd angen i'r cyfieithydd neu'r awdur ei chyfleu. Yn ail, bydd yn ein helpu i sicrhau bod y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfieithu ac yn ysgrifennu fersiynau Cymraeg yn talu sylw i'r defnyddwyr. Dim ond chi, y defnyddiwr, fydd yn gwybod a yw taflen yn hawdd ei deall ai peidio, felly mae'n hollbwysig eich bod yn rhan o'r broses.

Yn ogystal â hynny, mae agwedd arall ar hyn sef safon taflenni Cymraeg yn gyffredinol. Mae ymchwil wedi dangos bod y defnydd o ffurflenni, taflenni gwefannau a dogfennau Cymraeg cyffredinol is nag y gall fod, ac mae pobl yn dweud weithiau bod y fersiynau Cymraeg yn anodd eu darllen ac yn rhy ffurfiol. Rydyn ni am newid hyn ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a sicrhau bod ein gwaith yn glir, yn hawdd ei ddarllen ac yn addas at y diben. Eto, dim ond chi sy'n gallu ein helpu i wneud hynny.

**Sut fyddaf yn derbyn y wybodaeth?**
Byddwch chi'n derbyn y gwaith i'w ddarllen trwy e-bost. Gallwn anfon gwaith yn y post atoch chi hefyd os yw'n well gyda chi dderbyn copïau papur. Gallwch chi ddychwelyd eich sylwadau trwy e-bost hefyd. Os yw'n well gyda chi, mae croeso i chi gyfarfod â ni ar lein hefyd i drafod eich adborth.

**Beth fydd yn digwydd?**
Ar ôl i chi dderbyn y taflenni neu'r deunydd, bydd gofyn i chi ateb holiadur byr am y testun i wirio eich dealltwriaeth, ac ystyried y canlynol:

- Ydy'r wybodaeth yn gyffredinol yn gwneud synnwyr?
- Ydy'r wybodaeth wedi ei chyflwyno mewn modd clir o ran fformatio a diwyg?
- Oes unrhyw dermau, geiriau neu acronymau rhyfedd neu ddieithr?
- Ydy'r iaith yn rhy anffurfiol neu'n rhy ffurfiol?
- Ydy'r iaith yn gyffredinol yn gywir?
- Unrhyw sylwadau eraill sydd gyda chi

Er y gall hyn ymddangos yn ormod, bydd yr holiadur yn un byr ac ni ddylai gymryd mwy na 15 munud i'w lenwi. Cofiwch hefyd y cyfraniad y byddwch chi'n ei wneud i safon ein gwasanaethau Cymraeg.

**Beth fydd yn digwydd unwaith i fi anfon fy sylwadau?**
Byddai'n ddefnyddiol i ni dderbyn eich sylwadau o fewn 10 diwrnod, ond fyddwn ni ddim yn mynd ar ôl y rhai sydd heb ddychwelyd eu sylwadau mewn pryd. Mae'n rhaid i ni osod dyddiad oherwydd bydd rhaid i ni gymryd camau ar sail eich adborth a dychwelyd y gwaith i'r clinigwyr mewn pryd.

Unwaith i ni dderbyn y sylwadau, byddwn ni'n llunio adroddiad byr iawn yn cynnwys yr adborth, ac yn tynnu ynghyd y themâu sydd i'w gweld yn adborth pawb. Byddwn ni'n defnyddio'r sylwadau i wella'r testun terfynol cyn ei anfon at y clinigwyr. Os yw'r testun wedi ei anfon yn barod, byddwn ni'n anfon y gwaith eto ar ôl gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Mae hefyd yn ddigon posibl y bydd modd i ni rannu arfer da a rhannu beth rydyn ni wedi ei ddysgu o'ch adborth. Gallwch chi felly ein helpu i wneud cyfraniad i wasanaethau Cymraeg mewn sefydliadau a sectorau eraill.

**Sut alla i gymryd rhan?**
Os hoffech chi gymryd rhan, e-bostwch CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk
Byddwn ni'n croesawu eich cyfraniad yn fawr.

Mwy na geiriau.... More than just words....

## Panel Darllenwyr



Mae Tîm Gwasanaethau Cymraeg Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn awyddus i sefydlu Panel Darllenwyr, i sicrhau bod ein taflenni gwybodaeth a deunydd i gleifion yn addas o ran iaith. Y bwriad yw i'r Panel wirfoddoli i ddarllen ein taflenni a'n deunydd, er mwyn sicrhau bod y fersiynau Cymraeg yn glir, yn hawdd eu darllen ac o safon uchel.

### Beth fydd gofyn i fi ei wneud?

- Darllen y wybodaeth yn eich amser eich hun;
- Ateb ychydig o gwestiynau byr am y daflen i wirio eich bod wedi ei deall;
- Rhoi adborth i ni am iaith, termau a geiriau, a sut mae wedi gwybodaeth wedi ei geirio;
- Rhoi unrhyw sylwadau eraill i ni sydd gyda chi am y gwaith.

### Sut alla i gymryd rhan?

Bydd y taflenni a'r deunydd yn cael eu hanfon atoch chi trwy e-bost, a bydd holiadur adborth byr i chi hefyd. Y cyfan fydd eisiau i chi ei wneud yw darllen y wybodaeth ac ateb y cwestiynau byr. Bydd cyfle hefyd i chi roi unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud.



Bydd eich adborth chi yn gyfraniad mawr at ansawdd ein gwaith ac addasrwydd deunydd Cymraeg i'r gymuned ehangach. Byddwn ni'n defnyddio eich sylwadau i wella ein gwasanaethau cyfieithu ac i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein defnyddwyr. Os hoffech chi gymryd rhan, anfonwch e-bost at CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk

Ebost:
CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Ysgol Garth Olwg

**Blynyddoedd 5 a 6 yn Iach a Hyderus**

Mae llwyth o weithgareddau amrywiol wedi bod yn digwydd gyda ni ym mlwyddyn 5 a 6 ers dychwelyd ar ôl y Pasg ar gyfer ein gwaith ar 'Iach a



Hyderus'. Rydym wedi bod yn cerdded am hanner awr bob dydd ac yn cadw cofnod o'n camau ar gyfer ein gweithgareddau mathemateg ac aethom hefyd i'r neuadd chwaraeon i wneud sesiwn yoga a zumba. Daethom a'n beiciau, sgwteri, byrddau sglefrio a'n hesgidiau sglefrio i'r ysgol er mwyn cadw'n heini.



Cawsom ein mabolgampau ar y cae oedd yn llawer o hwyl. Daeth Mr Edwards, y Prifathro, i ddosbarth iaith Mrs Widgery er mwyn i'r plant ei gyfweld. Mae'r plant wedi ysgrifennu llythyron ato yn ceisio ei berswadio i addasu'r ysgol mewn rhyw ffordd a hybu iechyd da a lles y dysgwyr a'r staff.





Perfformiodd dosbarth y Drudwy yng ngwasanaeth yr ysgol Ganol gan gyflwyno neges bwysig yn hybu iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol. Buom yn rhan o sesiwn rhyngweithiol gydag awdures o'r enw Cath Howe. Daeth dwy darpar-feddyg atom i weithio gyda ni. Bu'r plant yn chwarae gêm feddygol newydd a grëwyd gan y ddwy. Daeth llu o nyrsys i'r ysgol i siarad gyda Blwyddyn 6 am eu gwaith. Bu rhai o'r disgyblion eu cyfweld ganddynt ar gyfer ffilm newydd hefyd.







I orffen ein gwaith 'Iach a Hyderus' cawsom bicnic iachus a gêm gyfeillgar o rygbi ar y cae. Mae'r disgyblion wedi mwynhau dysgu am fod yn ddisgyblion iach a hyderus yn arw!

# Tafwyl

**Parhad o dudalen 1**

Ar ddydd Sadwrn 15 Mai bydd holl ddigwyddiadau'r ŵyl yn cael eu ffrydio'n fyw rhwng 10yb a 9yh trwy gyfrwng platfform digidol AM, yna bydd cyfle i fwynhau'r uchafbwyntiau ar S4C am 8yh, nos Sul 13 Mehefin.

Ymysg y sgyrsiau mae sgwrs gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth baratoi at fwynhau'r 'Euros o adref'; recordiad arbennig o 'Beti a'i Phobol gyda Sara Yassine' (BBC Radio Cymru); a lansiad y podlediad LHDT+ cyntaf yn y Gymraeg, 'Esgusodwch Fi?'.

Bydd llwyfan newydd llawn sesiynau a thrafodaethau am iechyd a lles, gyda sesiynau i gynnwys podlediad meddwl.org gyda Tara Bethan ac Alun Saunders; gweithdai yoga a meddylgarwch; a sgwrs banel am hyder corff wedi'i drefnu gan Mari Gwenllïan HIWTI.

I'r gynulleidfa iau bydd gweithdai TikTok, colur, coginio, a dawnsio i enwi dim ond rhai, a chyfle i gymryd rhan mewn gweithdy rygbi gyda Gleision Caerdydd. Bydd perfformiad arbennig gan ddisgyblion o 17 ysgol Gymraeg Caerdydd wedi ei drefnu gan The Welsh of the West End.

Wrth fwynhau arlwy'r ŵyl o adref, bydd modd archebu bwyd a diod yn syth i'ch gardd gan un o'r 12 o gwmnïau arlwyo sy'n cynnwys Ansh, West Pizza a St Cannas. Gallwch archebu Cwrw Tafwyl gan fragdy Tomos & Lilford; mwynhau sesiwn blasu gwin rhithiol gyda Vin Van Caerdydd; a bydd cyfle hefyd i ddathlu diwylliant, bwyd a threftadaeth Bae Teigr trwy gymryd rhan yng Nghlwb Swper yr elusen Oasis Cardiff.

Wrth i Tafwyl ddathlu ei phen-blwydd yn bymtheg oed eleni, y bwriad yw adeiladu ar y profiadau newydd a ddaeth yn sgìl yr ŵyl rithiol llynedd, parhau i gynnal ei hysbryd croesawgar a chynhwysol, a throi'r her yn gyfle i ddenu cynulleidfaoedd newydd i brofi celfyddyd a diwylliant Cymreig.

Bydd rhai o ddigwyddiadau ffrinj yr ŵyl yn cychwyn ar 8 Mai, gydag un o'r prif ddigwyddiadau - gig elusenol Mind Cymru gydag Eden - yn digwydd ar noswyl Tafwyl (14 Mai).

I weld rhaglen lawn yr ŵyl ac am fwy o wybodaeth ewch i www.tafwyl.cymru a chyfryngau cymdeithasol Tafwyl @Tafwyl / #tafwyl21

# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Hwyl Fawr!**
Roedd pawb yn drist iawn wrth ddweud hwyl fawr wrth Mrs Richards ym mis Ebrill. Mae Mrs Richards wedi bod yn ran mawr o'r ysgol fel cyn-ddisgybl, rhiant ac aelod o staff. Rydym ni'n dymuno pob dymuniad da iddi hi wrth newid gyrfa.




**Iach a Hyderus**
Cafwyd pythefnos o fwynhau profiadau am fod yn iach a hyderus ar ddiwedd mis Ebrill. Bu'r disgyblion yn gwneud amrywiaeth o ymarfer corff, creu bwydydd a diodydd iachus, trafod eu teimladau a gwneud gweithgareddau meddwlgarwch wrth ddod i adnabod eu hun yn well











**Blodau haul**
Bu pob disgybl yr ysgol yn brysur iawn yn plannu hadau blodau haul yn ystod sesiwn awyr agored. Diolch i @PontyTC am ddarparu yr hadau, potiau a chompost. Mae pawb yn edrych ymlaen at eu gweld yn tyfu a mesur y tyfiant.



**Hanes PSN**
Gyda phen-blwydd yr Ysgol yn 70 mlwydd oed yn agosau, mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am hanes agor yr Ysgol a'r protestio gan y rhieni er mwyn i fwy o ddisgyblion dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'n agoriad llygad i bawb! Os ydych chi'n gyn-ddisgybl neu'n gyn aelod o staff ac fe hoffech chi rannu eich profiadau drwy lenwi'n holiadur neu greu fideo i'r disgyblion, cysylltwch â'r Ysgol: a.williams@psn.cymru



